GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

# Gwneud newid i'n Gwasanaethau Strôc

## Beth wyt ti'n feddwl?




Hawdd ei Ddeall


# Sut i ddefnyddio'r holiadur ar gyfrifiadur



Gelli di gwblhau yr holiadur ar gyfrifiadur. Yn gyntaf mae angen i ti ei lawrlwytho.



Pan yn agor yr holiadur ar gyfrifiadur, byddi di yn medru rhoi tic yn y bocs ac ysgrifennu yn y bocsys.



Pan fyddi di wedi gorffen yr holiadur, safia'r ddogfen ar dy gyfrifiadur ac ebostia gopi i: hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk



Gelli di hefyd lawrlwytho'r ddogfen hon, a'i chwblhau a'i anfon i ni drwy'r post: FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD

# Hawdd ei Ddeall





Fersiwn Hawdd ei Ddeall o rywfaint o wybodaeth yw hwn.

Mae'n defnyddio geiriau haws a lluniau.



Falle bydd rhai pobl dal angen help i'w ddarllen.




Mae rhai geiriau mewn print trwm i ddangos eu bod yn bwysig.




Ni'n egluro geiriau mewn print trwm os ydy nhw'n anodd i ddeall.

# Beth sydd yn y llyfryn


Am y llyfryn ........................................ 5

Am y gwasanaethau strôc ........................................ 6

Yr opsiynau ........................................ 11

Beth wyt ti'n feddwl? ........................................ 23


Cwestiynau amdanat ti ........................................ 32

Anfon dy atebion ........................................ 50

Cael gwybod mwy ........................................ 51

# Am y llyfryn

Mae’r llyfryn wrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.



Ni sy’n rhedeg gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Sir Benfro, a phobl sy’n byw yn agos i’r ardaloedd hyn.





Mae’r llyfryn yn nodi’r newidiadau ry’n ni’n meddwl gwneud i wasanaethau strôc.

# Am y gwasanaethau strôc



Mae **gwasanaethau strôc** yn trin a chefnogi pobl sydd wedi cael **strôc**.



Mae **strôc** yn gyflwr difrifol sy'n digwydd pan mae'r gwaed i ran o'r ymennydd yn cael ei dorri i ffwrdd.



Gall strôc achosi problemau iechyd parhaol.

Weithiau, mae pobl yn marw o strôc.

Mae gwasanaethau strôc yn cynnwys:



- **Unedau strôc** – sef wardiau mewn ysbyty ar gyfer cleifion strôc, sy'n rhoi gwiriadau a thriniaethau brys.



- **Gofal strôc arbenigol** – sef gofal arbenigol ar gyfer cleifion strôc sy'n sâl iawn.



- **Gofal adsefydlu strôc** – sef gofal i helpu pobl i wella ar ôl cael strôc.

Ar hyn o bryd, mae uned strôc ym mhob un o'r 4 ysbyty:




1. Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth.
2. Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin.
3. Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli.
4. Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlffordd.


## Pam bod angen gwneud newidiadau




Mae angen i ni newid ein gwasanaethau strôc fel eu bod yn ddiogel ac yn gofalu am gleifion strôc yn y ffordd orau bosib.



Nid yw ein gwasanaethau strôc yn rhoi'r gofal gorau.




Dydyn ni ddim yn gallu darparu gofal strôc arbenigol 7 diwrnod yr wythnos.



Does dim digon o staff gyda ni yn gweithio mewn gofal strôc arbenigol.



Ni wedi edrych ar lawer o wybodaeth wahanol i'n helpu i feddwl am newidiadau posib a allai wella gwasanaethau strôc.



Mae hyn yn cynnwys edrych ar beth mae pobl yn Hywel Dda wedi'i ddweud am wasanaethau strôc.




Ni wedi rhannu y newidiadau posib yn **opsiynau**.


# Yr opsiynau

## Yr opsiwn ry’n ni’n ei ffafrio



Dyma'r opsiwn ry’n ni'n ei feddwl sydd orau.

Byddai’r opsiwn yn golygu hyn:




- Byddai Glangwili yn cynnig gofal strôc arbenigol drwy’r dydd a’r nos, 7 diwrnod yr wythnos.




- Byddai Bronglais, Tywysog Philip a Llwynhelyg yn ysbytai trin a throsglwyddo.




Byddai pobl sydd o bosib â strôc sy'n byw agosaf at un o'r ysbytai hyn yn cael eu hasesu a'u trin yn gyntaf yn yr ysbyty mwyaf lleol.




Yna, os oes angen gofal strôc mwy arbenigol arnyn nhw, bydden nhw'n symud i Glangwili.




Os mai Glangwili yw ysbyty mwyaf lleol y claf, bydd yn mynd yno gyntaf.

Os byddai cleifion yn cael eu symud i Glangwili:




- Byddai cleifion sy'n byw agosaf at Tywysog Philip a Llwynhelyg yn aros yn Glangwili am eu gofal adsefydlu strôc.




- Byddai cleifion sy’n byw agosaf at Bronglais yn mynd yn ôl yno am eu gofal adsefydlu strôc.




Yn yr opsiwn ry’n ni’n ei ffafrio, byddai digon o staff i ddarparu gwasanaeth diogel.

Hefyd, yn yr opsiwn ry'n ni'n ei ffafrio:




- Byddai gofal strôc arbenigol ar gael drwy'r amser.




- Byddai gwasanaethau strôc yn gryfach ac yn darparu gofal gwell.



- Byddwn yn gallu dod â staff gwasanaethau strôc at ei gilydd.




Ry'n ni wedi edrych ar opsiynau arall hefyd:

- Opsiwn A.
- Opsiwn B.
- Opsiwn 106.
- Opsiwn 210.



Ry'n ni wedi gofyn i bobl beth yw eu barn am Opsiwn A ac Opsiwn B.




Ond mae Opsiwn 106 ac Opsiwn 210 yn 2 syniadau newydd gan ein cymunedau ry'n ni'n credu allai weithio.

# Opsiwn A

Byddai Opsiwn A yn golygu hyn:




- Byddai unedau strôc yn Tywysog Philip a Llwynhelyg, gyda staff arbenigol 12 awr y dydd.




- Byddai Bronglais a Glangwili yn ysbytai trin a throsglwyddo.


  Byddai cleifion yno sydd angen gofal arbenigol yn cael eu trosglwyddo i Tywysog Philip neu Llwynhelyg.



Byddai digon o staff i ddarparu gwasanaeth diogel.

# Opsiwn B

Byddai Opsiwn B yn golygu hyn:




- Byddai uned strôc yn Tywysog Philip, gyda staff gofal strôc arbenigol yno drwy'r amser.




- Byddai uned strôc yn Llwynhelyg, gyda staff gofal strôc arbenigol yn gweithio 12 awr y dydd.





- Byddai cleifion strôc o Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg sydd angen gofal arbenigol yn cael eu trosglwyddo i Tywysog Philip i gael gofal, fel arfer am 72 awr.




Ar ôl 72 awr, byddai cleifion sydd dal angen aros yn yr ysbyty, naill ai’n aros yn Tywysog Philip neu’n mynd i Llwynhelyg.

Byddai Opsiwn B yn golygu hyn:




- Byddai gwasanaethau strôc yn gwella ac yn darparu gofal gwell.




- Byddai staff gofal strôc arbenigol ar gael drwy’r amser.



- Byddai digon o staff i ddarparu gwasanaeth diogel.

# Opsiwn 106

Byddai Opsiwn 106 yn golygu hyn:




- Byddai unedau strôc yn Tywysog Philip a Llwynhelyg, gyda staff arbenigol yn gweithio 12 awr y dydd.




- Byddai Bronglais a Glangwili yn ysbytai trin a throsglwyddo.

  Byddai cleifion yno sydd angen gofal strôc arbenigol yn cael eu trosglwyddo i Tywysog Philip neu Llwynhelyg.




- Byddai Bronglais yn cynnig gofal adsefydlu strôc.

Byddai Opsiwn 106 yn golygu hyn:




- Byddai cleifion sy'n byw agosaf at Glangwili yn aros yn Tywysog Philip neu Llwynhelyg am eu gofal adsefydlu strôc.




- Byddai cleifion sy’n byw agosaf at Bronglais yn dychwelyd yno i gael gofal adsefydlu strôc.

# Opsiwn 210

Byddai Opsiwn 210 yn golygu hyn:




- Byddai Glangwili yn cynnig gofal strôc arbenigol drwy'r dydd a'r nos.




- Byddai uned strôc yn Bronglais, gyda staff arbenigol yn gweithio 12 awr y dydd.




- Byddai cleifion yn Bronglais, Tywysog Philip a Llwynhelyg sydd angen gofal arbenigol yn cael eu trosglwyddo i Glangwili, fel arfer am 72 awr.



- Wedi hynny, byddai cleifion sydd dal angen aros yn yr ysbyty, naill ai'n aros yn Glangwili neu'n mynd i Bronglais.



Yn opsiwn 210, byddai'n haws i bobl yng Ngheredigion, rhannau o Bowys a de Gwynedd gyrchu gwasanaethau strôc.

# Beth wyt ti'n feddwl?



Ry'n ni eisiau gwybod dy farn ar yr opsiynau.





Bydd hyn yn ein helpu i wneud penderfyniad terfynol ar pa opsiwn sydd orau.



Galli di ddweud wrthym beth yw dy farn drwy ateb y cwestiynau yn y llyfryn hwn.



Does dim rhaid i ti ateb pob cwestiwn.





Byddwn ni’n cadw unrhyw wybodaeth rwyt ti’n rhoi i ni yn ddiogel.




Mae gyda ti tan
ddydd Sul 26 Gorffennaf 2026
i ddweud beth wyt ti’n feddwl.

## Cwestiynau i ti




**Cwestiwn 1:** Wyt ti’n cytuno neu’n anghytuno y bydd yr opsiwn ry’n ni’n ei ffafrio yn helpu i wella gwasanaethau strôc?

| Cytuno’n gryf | Cytuno i ryw raddau | Dim un | Anghytuno i ryw raddau | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |



**Cwestiwn 2:** Pam wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno:

Galli di hefyd awgrymu rhywbeth er mwyn gwella yr opsiwn ry'n ni'n ei ffafrio.




**Cwestiwn 3:** Wyt ti'n credu bod un o'r opsiynau arall yn well na'r opsiwn ry'n ni'n ei ffafrio?

Os wyt, ticia'r opsiwn rwyt ti'n credu fyddai'n gweithio'n well.

- ☐ Opsiwn A
- ☐ Opsiwn B
- ☐ Opsiwn 106
- ☐ Opsiwn 210




**Cwestiwn 4:** Pam wyt ti'n credu y byddai'r opsiwn rwyt ti wedi ei ddewis yn gweithio'n well na'r opsiwn ry'n ni'n ei ffafrio:




**Cwestiwn 5:** Rhanna unrhyw sylwadau arall sydd gyda ti am sut y bydde ti'n hoffi i wasanaethau strôc fod yn y dyfodol. Gwna hyn ar y dudalen nesaf.

Gallai hyn fod:



- Am bethau rwyt ti'n meddwl bod ni heb feddwl andanynt.




- Am ysbyty neu gyrraedd ysbyty.



- Am gymorth i gleifion, ymwelwyr a staff.




**Cwestiwn 6:** Wyt ti'n credu allai'r opsiwn ry'n ni'n ei ffafrio effeithio ar bobl sy'n siarad Cymraeg:



**Cwestiwn 7:** Wyt ti'n credu y gallai yr opsiwn ry'n ni'n ei ffafrio effeithio ar unrhyw grwpiau o bobl:

Pwy yw'r grwpiau hyn o bobl a sut allwn ni sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu heffeithio.

# Cwestiynau amdanat ti



Ni hefyd am i ti ateb rhai cwestiynau amdanat ti dy hun.

Mae hyn yn helpu ni i wybod ein bod ni yn clywed wrth bobl o gefndiroedd gwahanol.



Does dim rhaid i ti ateb y cwestiynau hyn.



Os wyt ti wedi ateb y cwestiynau yn y llyfryn ar ran sefydliad, mae angen i ti ateb cwestiynau 8 a 9 yn gyntaf.




Os wyt ti wedi ateb y cwestiynau ar dy ran di dy hun, cer yn syth i gwestiwn 10.



**Cwestiwn 8:** Beth yw enw dy sefydliad:



**Cwestiwn 9:** Sut y casglwyd barn pawb yn y sefydliad:





**Cwestiwn 10:** Beth yw 5 llythyren a rhif cyntaf dy god post:



**Cwestiwn 11:** Beth yw dy oed?


- [ ] Rhwng 18 a 24
- [ ] Rhwng 25 a 34
- [ ] Rhwng 35 a 44
- [ ] Rhwng 45 a 54
- [ ] Rhwng 55 a 64
- [ ] Rhwng 65 a 74
- [ ] 75 neu hŷn
- [ ] Ddim am ddweud



**Cwestiwn 12:** Sut wyt ti'n disgrifio dy rywedd?

Dy **rywedd** yw a wyt ti'n ddyn, menyw neu'n defnyddio gair gwahanol i ddisgrifio dy hun.

- ☐ Dyn
- ☐ Menyw
- ☐ Anneuaidd – dwi'n teimlo nad ydw i yn ddyn nac yn fenyw
- ☐ Dyn traws – ces i fy ngeni yn fenwy, ond yn byw fy mywyd fel dyn
- ☐ Menyw traws – ces i fy ngeni yn ddyn, ond yn byw fy mywyd fel menyw
- ☐ Fi'n defnyddio gair arall i ddisgrifio fy rhywedd
- ☐ Ddim am ddweud




**Cwestiwn 13:** A ydy dy rywedd nawr yr un peth â dy rywedd pan ges di dy eni?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim am ddweud



**Cwestiwn 14:** A wyt ti'n feichiog, neu wedi cael babi yn y flwyddyn ddiwethaf?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Dyw'r cwestiwn ddim yn berthnasol i fi
- ☐ Ddim am ddweud



**Cwestiwn 15:** A oes gyda ti anabledd neu gyflwr iechyd sy'n effeithio ar dy fywyd o ddydd i ddydd?

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes
- [ ] Ddim am ddweud



**Cwestiwn 16:** Pa fath o anabledd neu gyflwr iechyd sydd gyda ti?

- [ ] Dim anabledd na chyflwr iechyd
- [ ] Salwch neu gyflwr iechyd hir-dymor, fel canser

Mae mwy o atebion ar y dudalen nesaf.

- [ ] Cyflwr iechyd meddwl, fel iselder
- [ ] Anabledd corfforol, fel angen defnyddio cadair olwyn
- [ ] Amhariad cymdeithasol – mae'n anodd deall gwybodaeth a siarad gyda phobl
- [ ] Anabledd dysgu
- [ ] Yn ddall neu â phroblem golwg
- [ ] Yn fyddar neu â phroblem clyw
- [ ] Anabledd neu gyflwr iechyd gwahanol
- [ ] Ddim am ddweud



**Cwestiwn 17:** Pa un o'r **cefndiroedd ethnig** hyn sy'n dy ddisgrifio orau?

Dy **gefndir ethnig** yw dy hil a'r wlad y daw dy deulu ohoni.



- [ ] Arabaidd



**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

- [ ] Tsieineaidd
- [ ] Indiaidd
- [ ] Pacistanaidd
- [ ] Cefndir Asiaidd gwahanol



## Du neu Ddu Prydeinig

- [ ] Affricanaidd
- [ ] Caribïaidd
- [ ] Cefndir Du gwahanol



## Mwy nag 1 cefndir ethnig

- [ ] Cefndir Du a Gwyn cymysg
- [ ] Cefndir Asiaidd a Gwyn cymysg
- [ ] Cefndir Du ac Asiaidd cymysg
- [ ] Cefndir cymysg gwahanol



**Teithiwr**

- ☐ Sipsi neu Roma
- ☐ Gwyddelig



**Gwyn**

- ☐ Cymro, Saes, Gwyddel o Ogledd Iwerddon, Albanwr
- ☐ Gwyddel
- ☐ Ewropeaidd
- ☐ Ddim am ddweud
- ☐ Cefndir ethnig gwahanol sydd heb ei restri yma – nodwch beth isod:



**Cwestiwn 18:** Pa un o'r atebion hyn sy'n disgrifio dy **gyfeiriadedd rhywiol** orau?

Dy **gyfeiriadedd rhywiol** yw at bwy wyt ti'n cael dy ddenu mewn ffordd ramantus.

- ☐ Anrhywiol – ddim yn cael dy ddenu at unrhyw rywedd
- ☐ Deurywiol – cael dy ddenu at y ddau ryw
- ☐ Dyn hoyw – dyn sy'n cael ei ddenu at ddynion arall
- ☐ Lesbiaidd – menyw sy'n cael ei denu at fenywod arall
- ☐ Syth – cael dy ddenu at bobl sydd o'r rhyw arall
- ☐ Ddim am ddweud
- ☐ Fi'n defnyddio gair arall i ddisgrifio fy nghyfeiriadedd rhywiol



**Cwestiwn 19:** Beth yw dy grefydd?

- ☐ Bwdhaeth
- ☐ Cristnogaeth
- ☐ Hindŵaeth
- ☐ Iddewiaeth
- ☐ Islam
- ☐ Sikh
- ☐ Does gen i ddim crefydd
- ☐ Crefydd gwahanol
- ☐ Ddim am ddweud



**Cwestiwn 20:** Wyt ti'n briod neu mewn **partneriaeth sifil**?

Mae **partneriaeth sifil** yn ffordd o wneud eich perthynas yn gyfreithiol heb briodi.

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Ddim am ddweud



**Cwestiwn 21:** Wyt ti'n rhan o'r Lluoedd Arfog?

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Ddim am ddweud



**Cwestiwn 22:** Wyt ti’n ofalwr i ffrind neu berthynas sydd ag anghenion iechyd a chymorth?

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Ddim am ddweud



**Cwestiwn 23:** Pa fath o ofalwr wyt ti?

- [ ] Ddim yn ofalwr
- [ ] Prif ofalwr plentyn anabl

Mae mwy o atebion ar y dudalen nesaf.

- [ ] Prif ofalwr oedolyn anabl dros 18 oe
- [ ] Prif ofalwr oedolyn dros 65 oed
- [ ] Gofalwr eilaidd – yn helpu y prif ofalwr i gefnogi rhywun
- [ ] Ddim am ddweud



**Cwestiwn 24:** Gyda'i gilydd, faint o arian mae pawb sy'n byw yn dy gartref yn ei gael mewn blwyddyn?

Y cyfanswm cyn tynnu unrhyw dreth.

- ☐ Llai na £10,000
- ☐ Rhwng £10,001 a £20,000
- ☐ Rhwng £20,001 a £30,000
- ☐ Rhwng £30,001 a £40,000
- ☐ Mwy na £40,001
- ☐ Ddim am ddweud



**Cwestiwn 25:** Pa iaith wyt ti'n siarad gartref?

- [ ] Cymraeg
- [ ] Saesneg
- [ ] Iaith Arwyddion Prydain
- [ ] Ddim am ddweud
- [ ] Iaith wahanol – dwed pa iaith isod:



**Cwestiwn 26:** Pe bai rhywun yn cysylltu â ti, pa iaith fyddai'n well gennyt ti?

- [ ] Cymraeg
- [ ] Saesneg
- [ ] Iaith Arwyddion Prydain
- [ ] Ddim am ddweud
- [ ] Iaith wahanol – dwed pa iaith isod:

# Anfon dy atebion




Anfona dy atebion atom, drwy bostio'r llyfryn i:

FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD

Does dim angen stamp.




Os wyt ti wedi ateb y cwestiynau ar dy gyfrifiadur, e-bostiwch dy atebion at: hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk




Cofia, mae gy da ti tan ddydd Sul 26 Gorffennaf 2026 i rannu dy farn gyda ni.

# Cael gwybod mwy



Gallu di edrych ar ein gwefan yma:

Gwefan Hywel Dda




Beth wyt ti'n ei feddwl o'r llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn?

Cofia lenwi'r holiadur i ddweud beth wyt ti'n feddwl: www.easy-read-online.co.uk/easy-read-feedback-survey

Cynhyrchwyd y llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn gan easy-read-online.co.uk. Mae'r llyfryn yn cynnwys lluniau wedi'u trwyddedu gan Shutterstock.